# Atebion a roddwyd i Aelodau ar 22 Hydref 2007

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Dreftadaeth

4 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

**Joyce Watson (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei wneud i helpu plant o gefndiroedd economaidd difreintiedig i gael mynediad i'r Brifysgol? (WAQ50473)

**Joyce Watson (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei wneud i helpu mwy o blant o gefndiroedd economaidd difreintiedig i fynd i brifysgol? (WAQ50486)

**Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (Jane Hutt):** Mae Llywodraeth y Cynulliad yn benderfynol o ddatblygu cyfundrefn addysg uwch sy'n mynd i'r afael â thlodi ac anfantais ac mae'n ymrwymedig i ehangu cyfranogiad ym maes addysg uwch. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn darparu arian Ehangu Mynediad fel rhan o'r grant addysgu blynyddol i sefydliadau addysg uwch yng Nghymru er mwyn cydnabod costau ychwanegol recriwtio a chadw myfyrwyr o grwpiau a dangynrychiolir. Darperir arian hefyd ar gyfer gwaith pedair Partneriaeth Ymgyrraedd yn Ehangach, yn enwedig yn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf.

O ran cymorth i fyfyrwyr, mae'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg yn gymhelliant ariannol i bobl ifanc 16 oed aros mewn addysg. Ni thelir ffioedd prifysgol ymlaen llaw - caiff ad-daliadau benthyciadau eu gohirio hyd nes bod y myfyriwr yn ennill ychydig dros £15,000. Mae grant ffioedd dysgu nad oes angen ei ad-dalu ar gael i fyfyrwyr o Gymru sy'n astudio yng Nghymru. Mae benthyciad cynhaliaeth ar gael hefyd o hyd at £6,170 i fyfyrwyr sy'n byw oddi cartref ac sy'n astudio yn Llundain ac o hyd at £4,405 i fyfyrwyr sy'n byw oddi cartref ac yn astudio yn rhywle arall.

Mae Grant Dysgu llawn gan y Cynulliad (£2,765) a Bwrsari Cymreig (£305) ar gael i'r myfyrwyr hynny y mae incwm eu cartref yn £17,920 neu'n llai. Mae nifer o sefydliadau addysg uwch yng Nghymru yn dyfarnu bwrsarïau ychwanegol sy'n seiliedig ar brawf modd, ac mae ysgoloriaethau ar gael mewn pynciau penodol megis gwyddoniaeth a pheirianneg.

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn ymrwymedig i roi cymorth ychwanegol gyda dyledion myfyrwyr ac i gynnal y lefelau ffioedd presennol yng Nghymru hyd at a chan gynnwys 2009/10. Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn cynnal y lefel bresennol o adnoddau drwy gydol tymor pedair blynedd y Cynulliad, gan wneud beth bynnag sy'n bosibl i liniaru'r effeithiau ar fyfyrwyr o Gymru pan fydd llywodraeth San Steffan yn tynnu'r cap ar ffioedd yn 2009.

**Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynnydd Llywodraeth y Cynulliad o ran gweithredu argymhellion adroddiad y Pwyllgor ar Ariannu Ysgolion? (WAQ50501)

**Jane Hutt:** Yn ymateb ysgrifenedig Llywodraeth y Cynulliad i adroddiad y Pwyllgor Cyllido Ysgolion ar 19 Medi 2006, derbyniwyd 23 o argymhellion o blith 27 yn gyfan gwbl neu mewn egwyddor. Roeddem yn cefnogi'n llwyr nodau'r argymhellion i wella'r tryloywder, gwrthrychedd a'r tegwch o ran y ffordd y caiff arian ei ddosbarthu mewn awdurdodau lleol yng Nghymru.

Roedd yr ymrwymiadau yn yr ymateb yn cynnwys rhaglen waith helaeth i wella tryloywder a sefydlogrwydd arian ysgolion yng Nghymru. Mae'r canlynol yn crynhoi'r cynnydd hyd yma:

- cyhoeddwyd adroddiad ystadegol ar gyllidebau addysg mewn awdurdodau lleol ar gyfer 2007-08 ar 30 Awst - mae ar gael yn. http://new.wales.gov.uk/docrepos/40382/40382313/statistics/locgov/education-budget0708.pdf?lang=en (argymhelliad 1). Mae hyn yn adlewyrchu gwaith gan ein Cyfarwyddiaeth

Ystadegol a llywodraeth leol i adolygu ffurflenni a chanllawiau adran 52 i sicrhau mwy o gysondeb o ran cofnodi data ar gyllidebau ac alldro ar draws awdurdodau o 2007-08 (argymhellion 7, 8, 9, 10);

- comisiynwyd adolygiad gan Brifysgol Heriot-Watt i edrych ar ffactorau yn ymwneud ag amddifadedd a theneurwydd poblogaeth, a'u pwysoliadau, yn elfen addysg fformiwla'r Asesiad o Wariant Safonol, yn enwedig p'un a allai'r fformiwla fod yn fwy blaengar. Mae'r adroddiad terfynol wedi'i gyflwyno ac rydym yn ystyried beth yw'r ffordd orau o weithredu ar ganlyniadau'r astudiaeth (argymhellion 2, 3 a 5; sydd hefyd yn berthnasol i argymhelliad 6);

- gwnaeth pob awdurdod lleol gydymffurfio â'r cais i hysbysu eu fforwm ysgol, y Cyngor llawn a Llywodraeth y Cynulliad lle'r oeddent wedi pennu cyllideb ar gyfer 2007-08 a oedd yn wahanol i'w hasesiadau yn seiliedig ar Ddangosyddion ym maes Addysg (argymhellion 15, 16, 17);

- y rydym yn datblygu adran ar arian ysgolion ar wefan Llywodraeth y Cynulliad, gan gynnwys cyfeiriad e-bost ar gyfer ymholiadau ynglŷn ag arian ysgolion, er mwyn darparu gwybodaeth sy'n hygyrch i awdurdodau lleol, athrawon a rhieni. Caiff y cynnwys ei adolygu yn barhaus drwy waith monitro ac adborth (argymhelliad 11);

- bydd ymgynghoriad ym mis Hydref ar gyflwyno cyllidebau ysgolion tair blynedd o 2008-09. Mae angen i ni sicrhau bod ein cynigion yn ymarferol a bod ein rhanddeiliaid yn teimlo'n hyderus y byddant yn helpu ysgolion i gysoni â'r gwaith cynllunio ariannol yn yr hirdymor â gwaith cynllunio'r cwricwlwm (argymhelliad 12);

- rydym wedi adeiladu ar ein Protocol Grantiau gyda CLILC er mwyn sicrhau bod pob grant a neilltuir yn gyson ag amcanion setliadau llywodraeth leol tair blynedd o 2008-09 i wella cynllunio strategol ac ariannol mewn awdurdodau lleol. Yr egwyddorion sydd wrth wraidd ein hymagwedd yw: lleihau faint o arian a neilltuir; gweithio gyda llywodraeth leol i nodi a chytuno ar y cyflawniadau strategol y dylid eu sicrhau; cydnabod lle mai grantiau a neilltuir yw'r dull mwyaf priodol o sicrhau'r hyn sydd i'w gyflawni, fod gan y grantiau gynllun clir dros y cyfnod tair blynedd a'u bod yn cael eu hadolygu o bryd i'w gilydd (argymhellion 18, 19 a 20);

- cynhelir adolygiad o fforymau ysgol cyn diwedd 2007 er mwyn asesu pa mor effeithiol fu fforymau o ran hyrwyddo deialog hyderus rhwng ysgolion ac awdurdodau lleol o ran materion yn ymwneud ag arian ysgolion ers iddynt gael eu sefydlu ym mis Rhagfyr 2003. Yng ngoleuni'r profiad byddwn yn ystyried yr angen am unrhyw newidiadau (argymhelliad 23);

- caiff lefelau arian cyfalaf ysgolion eu hystyried fel rhan o Ymarfer Asesu Adnoddau cyfredol Llywodraeth y Cynulliad (argymhelliad 26).

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Dreftadaeth

**Nerys Evans (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Beth oedd cylch gwaith yr adolygiad diweddar o ddawns gymunedol gan Gyngor y Celfyddydau? (WAQ50495)

**Y Gweinidog dros Dreftadaeth (Rhodri Glyn Thomas):** Nod Cyngor Celfyddydau Cymru o ran cyflawni adolygiad o Gelfyddydau Cymunedol, sy'n cynnwys Dawnsio Cymunedol, yw dod yn nes at sicrhau darpariaeth sy'n fwy strategol, gan ganolbwyntio ar ariannu'r ardaloedd hynny yng Nghymru lle mae'n amlwg bod cymorth gan y gymdeithas ddinesig wedi lleihau, lle mae amddifadedd ar ei huchaf a lle y gall ymyriadau strategol mewn celfyddydau cymunedol gael yr effaith fwyaf.

**Nerys Evans (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi manylion yr adolygiad diweddar o ddawns gymunedol yng Nghymru? (WAQ50496)

**Rhodri Glyn Thomas:** Dechreuodd Adolygiad o Bortffolio Celfyddydau Cymunedol Cyngor Celfyddydau Cymru, sy'n cynnwys Dawnsio Cymunedol, ym mis Mehefin 2006 fel rhan o adolygiadau parhaus Cyngor Celfyddydau Cymru o bortffolios. Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn ariannu rhwydwaith o sefydliadau celfyddydau cymunedol lleol sy'n ymwneud â chyflwyno rhaglenni celfyddydau cymunedol ar draws ystod o wahanol fathau o gelfyddyd a/neu sy'n canolbwyntio ar fath penodol o gelfyddyd fel yn achos dawnsio cymunedol a cherddoriaeth gymunedol. Nod Cyngor Celfyddydau Cymru yw dod yn nes at sicrhau darpariaeth sy'n fwy strategol, gan ganolbwyntio ar arian ar gyfer celfyddydau cymunedol yn yr ardaloedd hynny o Gymru lle mae'n amlwg bod cymorth gan y gymdeithas ddinesig wedi lleihau, lle mae amddifadedd ar ei huchaf a lle y gall ymyriadau strategol mewn celfyddydau cymunedol gael yr effaith fwyaf.

**Nerys Evans (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Beth oedd casgliad a chanlyniadau'r adolygiad diweddar o ddawns gymunedol? (WAQ50497)

**Rhodri Glyn Thomas:** Deallaf fod Cyngor Celfyddydau Cymru yn ystyried casgliadau'r Adolygiad o Gelfyddydau Cymunedol ar hyn o bryd.

Mae arian gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer y Celfyddydau wedi ei sianelu drwy Gyngor Celfyddydau Cymru. Mae penderfyniadau yn ymwneud â materion ariannol unigol yn fater i Gyngor y Celfyddydau.

**Huw Lewis (Merthyr Tudful a Rhymni):** A all y Gweinidog warantu na fydd unrhyw becyn cymorth ariannol y mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei ystyried ar gyfer Canolfan Mileniwm Cymru'n effeithio ar y Ganolfan Celfyddydau newydd arfaethedig ar gyfer Merthyr Tudful? (WAQ50503)

**Rhodri Glyn Thomas:** Caiff cymorth ariannol Llywodraeth Cynulliad Cymru i Ganolfan Mileniwm Cymru ei ystyried fel rhan o drafodaethau'r Cabinet ar y gyllideb sy'n mynd rhagddynt. Y bwriad ar hyn o bryd yw cyhoeddi cyllideb ddrafft Llywodraeth y Cynulliad ar 5 Tachwedd.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

**Lynne Neagle (Tor-faen):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei wneud i wella ymwybyddiaeth o'r Rhaglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol ymhlith mudiadau ac asiantaethau yng Nghymru? (WAQ50500)

**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol (Brian Gibbons):** Mae Gwybodaeth am Raglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol ar gael ar Wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Er mwyn codi ymwybyddiaeth yn y sector gwirfoddol, caiff gwybodaeth am y rhaglen ei hanfon i Gynghorau Gwirfoddol Sirol lleol ac mae erthyglau wedi'u cynnwys yng nghylchgrawn Rhwydwaith Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a bwletin misol Cymunedau yn Gyntaf - y mae'r naill a'r llall yn cael eu hanfon at ystod eang o randdeiliaid. Mae fy swyddogion hefyd wedi ymuno â nifer o ffeiriau ariannu a reolir gan y Cyngor Gwirfoddol Sirol ar hyd a lled Cymru er mwyn codi ymwybyddiaeth am y rhaglen.

O ran y sector statudol, mae fy swyddogion wedi fy sicrhau bod pob adran berthnasol mewn awdurdodau lleol yn ymwybodol o CFAP ac maent wedi gofyn iddynt gyfeirio sefydliadau gwirfoddol neu gymunedol at y rhaglen pan wneir cais am y math hwn o arian.